

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau

Chwefror 2022



1. Cefndir

Bil Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Rheoli Cymorthdaliadau¹ (y Bil) Llywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 30 Mehefin 2021. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.
2. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Rhagfyr 2021 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 14 Rhagfyr 2021.² Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil wedi cwblhau ei Gyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi³ gyda dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd i'w gyhoeddi.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
4. Ar 13 Gorffennaf 2021, gosododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi (y Gweinidogion), Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol⁴ (y Memorandwm gwreiddiol) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.
5. Cyflwynwyd adroddiad ar y Memorandwm ar 7 Rhagfyr 2021 (adroddiad cyntaf).⁵

¹ Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau fel y'i cyflwynwyd [Tŷ'r Arglwyddi, Bil 135 2021-22]

² Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau fel y'i cyflwynwyd o Dŷ'r Cyffredin (Tŷ'r Arglwyddi, Bil 84)

³ Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-Bwyllgor (Tŷ'r Arglwyddi, Bil 113)

⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoli Cymorthdaliadau, Gorffennaf 2021

⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau, Rhagfyr 2021

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

6. Ar 6 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidogion Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol⁶ (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â'r Bil.
7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 3 Mawrth 2022.⁷ Dygwyd y dyddiad ymlaen wedyn i 1 Mawrth 2022.⁸

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

8. Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm gwreiddiol nodwyd y diffyg eglurder ynghylch a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 41 a 42 o'r Bil.⁹ Am y rheswm hwnnw, gwnaethom yr argymhelliad a ganlyn:

"Argymhelliad 1. [Er mwyn osgoi amheuaeth] dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 41 a 42 ac a yw felly'n gofyn am gydsyniad y Senedd ar eu cyfer."

9. Nododd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig hefyd yr amwysedd yn ei adroddiad ar y Memorandwm:

*"Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 35-40, 43, 44, a 45-51. Nid yw'n eglur o baragraff 19 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 41 a 42, gan nad yw'r geiriad yn benodol. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer pob un o'r cymalau yn Rhan 3 (cymalau 35-51)."*¹⁰

⁶Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau](#), Tachwedd 2021

⁷ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Rheoli Cymorthdaliadau](#), Ionawr 2022

⁸ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau](#), Chwefror 2022

⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau](#), Rhagfyr 2021, paragraffau 12 a 42

¹⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, [Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rheoli Cymorthdaliadau](#), Tachwedd 2021, paragraff 28

10. Ym mharagraff 3 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidogion yn nodi fel a ganlyn:

"Mae'r LCM Atodol hwn yn egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddau gymal (cymalau 41 a 42) a nodwyd yn yr LCM gwreiddiol fel rhai y mae angen cydsyniad iddynt."

11. Mae paragraffau 9 i 11 o Femorandwm Rhif 2 yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 41 a 42, ochr yn ochr â'r rhesymeg dros y farn hon:

"Mae'r darpariaethau hyn yn gosod gofynion mewn perthynas â chymorth ariannol lleiaf posibl a Chymorth Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)

Mae angen LCM mewn perthynas â chymalau 41 a 42, gam gwmpasu uno a chaffael, eithriadau ar gyfer cymorth SPEI, a darpariaethau atodol a deongliadol...

Mae rheoli cymorthdaliadau yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac mae'r Bil yn gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er hynny, er mai mater a gedwir yn ôl ydyw, mae'n effeithio ar fater datblygu economaidd nad yw'n fater a gedwir yn ôl, ac mae effaith y maes hwn a gedwir yn ôl hwn yn codi rhai pryderon. Mae Llywodraeth y DU wedi deddfu fel hyn gan ei bod am gael dull i'r DU gyfan o reoli cymorthdaliadau."

Safbwynt Llywodraeth Cymru

12. Mae paragraff 17 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi casgliad y Gweinidogion:

"Fel y nodwyd yn y paragraffau uchod, mae cymalau 41 a 42 o'r Bil yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly, mae angen cydsyniad y Senedd. Er hynny, ni fyddwn mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i gynnwys cymalau 41 a 42 yn y Bil, na'r darpariaethau eraill a nodir yn yr LCM gwreiddiol, oni bai fod y Bil yn cael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'n pryderon."

2. Trafodaeth y Pwyllgor

13. Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror 2022, a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 14 Chwefror 2022.¹¹

Ein barn ni

14. Rydym yn croesawu penderfyniad y Gweinidogion i osod Memorandwm Rhif 2 gerbron y Senedd. Wrth wneud hynny, aethpwyd i'r afael ag argymhelliad 1 o'n hadroddiad cyntaf ac mae'r diffyg eglurder ynghylch barn Llywodraeth Cymru ar gymalau 41 a 42 wedi'i ddatrys.

15. Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 41 a 42 o'r Bil. Nodwn nad yw'r Gweinidogion mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i gynnwys y cymalau hyn yn y Bil (na'r darpariaethau eraill a nodir yn y Memorandwm gwreiddiol) oni bai fod y Bil yn cael ei ddiwygio i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru.

16. Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad y byddem yn cefnogi diwygiadau i'r Bil a oedd yn mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru (a amlinellwyd yn y Memorandwm gwreiddiol) mewn perthynas â nifer o gymalau, gan gynnwys cymal 10.

17. Mae cymal 10 yn ymwneud â chynlluniau cymorthdaliadau symlach, a fwriedir i ganiatáu i Lywodraeth y DU wneud darpariaethau a fydd yn ei gwneud yn gyflymach ac yn haws i awdurdodau cyhoeddus roi cymorthdaliadau risg is, heb fod angen asesu cydymffurfiad â'r egwyddorion rheoli cymorthdaliadau yn y Bil. Mae cymal 10(5) o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i gynllun cymorthdaliadau symlach gael ei osod gerbron Senedd y DU ar ôl iddo gael ei wneud.

18. Roedd ein hadroddiad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r cymal hwn a'i bod yn credu y dylid ymestyn y pŵer i wneud cynlluniau cymorthdaliadau symlach i Weindogion Cymru "o gofio bod y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn effeithio ar feysydd cyfrifoldeb datganoledig", gan ychwanegu gofyniad i osod cynlluniau o'r fath gerbron y Senedd.¹²

¹¹ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Chwefror 2022](#), a'r [Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Chwefror 2022](#)

¹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau, Rhagfyr 2021, paragraffau 16 ac 17

19. Ar 13 Ionawr 2022, gosododd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar y Bil.¹³ Wrth drafod cymal 10, dywedodd:

"The Government acknowledge ... that Parliament will be rightly interested in the categories of subsidies that can be given in accordance with streamlined subsidy schemes. The Government nevertheless conclude that the economic or analytic nature of the subject matter is consistent with the making of a scheme rather than regulations.

We take the view that, precisely because Parliament will be interested in streamlined subsidy schemes (as the Government acknowledge), the matter should be included in regulations subject to a parliamentary procedure.

The Government mention two precedents from the health and agricultural sectors where schemes are used rather than regulations. But the current Bill involves schemes potentially applying across all sectors.

We recommend that the power to establish streamlined subsidy schemes in clause 10 should be exercised by regulations, and that the negative procedure would be appropriate."¹⁴

20. Mae'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol hefyd yn gwneud argymhellion ar gymalau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad fel y'i nodwyd yn y Memorandwm gwreiddiol, sef cymalau 16, 25, 26, 27 a 47.

21. Rydym yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r Senedd at adroddiad Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol Tŷ'r Arglwyddi.

22. Ar 9 Chwefror 2022, ysgrifennodd y Farwnes Andrews, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gwir Anrhydeddus George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.¹⁵ Roedd y llythyr yn cynnwys y sylwadau a ganlyn am y berthynas rhwng y Bil a fframweithiau cyffredin:

¹³ Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Tŷ'r Arglwyddi, Adroddiad Sesiwn Rhif 17, 2021–22 [Bil Rheoli Cymorthdaliadau](#), Papur Tŷ'r Arglwyddi 140, Ionawr 2022

¹⁴ Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Tŷ'r Arglwyddi, Adroddiad Sesiwn Rhif 17, 2021–22 Bil Rheoli Cymorthdaliadau, Papur Tŷ'r Arglwyddi 140, Ionawr 2022, paragraffau 22-24

¹⁵ [Llythyr gan y Farwnes Andrews, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at y Gwir Anrhydeddus George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig](#), 9 Chwefror 2022

"We are also increasingly concerned about the impact of the Subsidy Control Bill currently progressing through Parliament and its interaction with common frameworks. While we acknowledge Subsidy Control is a reserved area, powers and requirements within the Bill could have implications for agricultural policy across the UK. Within the Bill, we note that there are powers under which the Secretary of State can refer subsidies or subsidy schemes made by the devolved Governments to the Competition and Markets Authority (CMA) which could potentially have the effect of overriding the devolved governments when it comes to proposing subsidies (clauses 52 and 60). We are therefore concerned about how provisions in the Bill can be harmonised with the explicit equality of the Parties provided for in the framework in respect of agricultural support. Our concern not only relates to the provisions to which we have referred but also to clause 10(5) (streamlined subsidy schemes), clause 70(5) (standing before Competition and Markets Tribunal) and schedule 3 (review by the High Court or Court of Session for compliance with subsidy control principles of primary legislation of the devolved Parliaments which makes provision for subsidies or subsidy schemes).

We would therefore be grateful if you could first clarify which devolved areas covered by the scope of this framework could be impacted by the Subsidy Control Bill? Second, can you also clarify what would happen if the CMA or Competition Appeal Tribunal, High Court or Court of Session made a different decision on subsidies to one proposed or agreed within the framework?"

23. Mewn llythyr dilynol dyddiedig 11 Chwefror at yr Arglwydd Callanan, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, gwnaeth y Farwnes Andrews yr un sylwadau, ond ychwanegodd:

"This is an extremely serious matter which bears on the functioning of the Union. We would invite you to explain how you see the relationship between common frameworks and the Bill; and how will you ensure that the Bill will not threaten the operability of frameworks? And, of course, how you propose to reconcile common frameworks, especially the JMC principles which ensure

parity and an increase in decision-making powers for the devolved administrations, with the Bill?"¹⁶

24. Rydym yn rhannu pryderon Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi ynghylch y rhyngweithio rhwng y Bil a fframweithiau cyffredin a'i oblygiadau ar gyfer polisi datganoledig. Felly, rydym hefyd yn tynnu sylw'r Senedd at y materion hyn.

¹⁶ Llythyr gan y Farnes Andrews, Cadeirydd, Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi at yr Arglwydd Callanan, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Busnes, 11 Chwefror 2022. Ar gyfer egwyddorion y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, gweler tudalennau 4-5 o'r [Dadansoddiad o Fframweithiau 2021](#)
